**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ffordd Llys Nant, Prestatyn Ddydd Llun, 7fed Mehefin 2010 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr M M Jones (Cadeirydd), J A Davies, C M Evans, G C Evans, G A Jones a J G Yorke

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

H Ellis, R Elms, B Wyn Evans, S Harris, Y Parchedig B A. Jones ac M Ludenbach

**Yn Cynrychioli'r Gymdeithas Athrawon**

M Bradshaw, C Harmsworth, L Linaker ac M Phillips

**Aelodau wedi eu cyfethol**

G Craigen a T Ap Siôn

**HEFYD YN BRESENNOL**

Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol (PL) a Chlerc CYSAG (KEJ)

**YMDDIHEURIADAU**

M. Hatch. M B Lloyd ac E. Wright

**MYFYRDOD TAWEL**

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

**CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Hefyd estynnodd groeso arbennig i Mr G. Craigen oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf fel aelod wedi ei gyfethol.

**97 MATERION BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol1972, datganodd y Cadeirydd ei bod yn bwriadu cynnwys trafodaeth ar y mater canlynol sydd angen sylw brys –

**Ethol aelodau i Weithgor CYSAG Cymru**

**98 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar y 24ain Chwefror, 2010 (a rannwyd o'r blaen).

Tudalen 5 - Eitem Rhif 4 dadansoddiad o Adroddiadau Arolygon Ysgolion - gofynnodd y Cynghorydd C M Evans am eglurhad o'r sylw a wnaed ynglŷn â'r feirniadaeth a anelwyd at rai ysgolion bod gwendidau mewn materion yn ymwneud ag Entrepreneuriaeth a Menter ac addysg sy'n berthnasol i Waith. Eglurwyd bod yr agwedd yma wedi cael ei gynnwys fel sylw negyddol mewn adroddiadau Estyn ar ddwy ysgol a'i fod yn cael ei ystyried yn sylw annheg gan yr aelod o GYSAG dan sylw yng nghyd-destun Addysg Grefyddol.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 24ain Chwefror 2010 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 99 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGON YSGOLION

Cyflwynodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol adroddiad (a rannwyd o’r blaen) yn dadansoddi canlyniadau arolygon diweddar mewn pedair ysgol rhwng Rhagfyr 2009 a Chwefror 2010 o ran eu darpariaeth o Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol, ac Addysg Grefyddol pan oedd yn rhan o’r arolwg. Roedd Arolygon wedi eu cynnal yn Ysgol y Parc, Dinbych, Ysgol Maes Hyfryd, Corwen, Ysgol Bryn Collen, Llangollen ac Ysgol Gellifor ac roedd hanes byr pob ysgol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Cyflwynodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol grynodeb byr i’r aelodau o’r casgliadau perthnasol ar gyfer pob ysgol, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau yn eu cylch. Nid oedd Addysg Grefyddol wedi ei archwilio yn Ysgol y Parc nac yn Ysgol Gellifor. O ran Cwestiwn Allweddol 3 - pa mor dda mae’r profiadau dysgu’n cyfarfod ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach, roedd tair ysgol wedi cyflawni Gradd 1 - da gyda nodweddion arbennig tra roedd un ysgol (Ysgol Bryn Collen) wedi cyflawni Gradd 4 - rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig. Er y diffygion hyn pwysleisiwyd bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol disgyblion yn Ysgol Bryn Collen â nodweddion da heb ddiffygion pwysig gyda’r ysgol yn cynnig synnwyr cryf o gyrhaeddiad i’r disgyblion gan eu hannog i barchu talentau eraill. Roedd yn braf nodi’r 74 o sylwadau cadarnhaol oddi wrth yr adran Ysbrydol, Foesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ar draws y pedair ysgol. Tynnodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol sylw hefyd at y 13 o nodweddion pwysig sy’n benodol i’r ddarpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol, gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol ac addoli cyfunol oedd wedi ei glustnodi yn yr adroddiadau archwilio ar gyfer ysgolion penodol. Er bod 6 o sylwadau negyddol dim ond un oedd yn ymwneud ag Addysg Grefyddol a’r ysgol yn methu â chyfarfod â’r gofynion statudol ar gyfer Addysg Grefyddol, mater a fydd yn derbyn sylw.

Yn achos Addysg Grefyddol roedd y pedair ysgol wedi derbyn 19 o sylwadau cadarnhaol rhyngddyn nhw gyda 3 sylw negyddol yn achos un ysgol (Ysgol Bryn Collen).

Roedd y Cynghorydd C M Evans o’r farn y gallai fod yn gymysglyd i blant ifanc gael eu dysgu am nifer o grefyddau yn ogystal â Christnogaeth a gofynnodd a oedd dysgu am sawl ffydd arall yn ofynnol oddi fewn i’r cwricwlwm. Atebodd Ms. L Linaker ei bod yn dysgu plant hyd at 7 oed a’i bod yn teimlo nad ydyn nhw’n rhy ifanc i gael eu cyflwyno i ffydd arall ac, yn ei phrofiad hi, maen nhw’n mwynhau dysgu am sut mae eraill yn addoli mewn ffyrdd gwahanol. Nododd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol bod y Meysydd Llafur Cytûn wedi cymryd yr agwedd yma i ystyriaeth a bod Cristnogaeth yn cael ei ddysgu yn y cyfnod sylfaen gyda chrefyddau eraill yn cael eu cyflwyno a’u harchwilio mewn Cyfnodau Allweddol eraill er mwyn ehangu gorwelion disgyblion. Cytunwyd yn lleol ynghylch Addysg Grefyddol er mwyn cymryd i ystyriaeth yr ethnigrwydd y gymuned a phwysleisiodd bwysigrwydd rhyngweithio gyda, a dysgu am, ddiwylliannau eraill. Cytunodd Tania Ap Siôn bod y Meysydd Llafur Cytyn yn delio’n briodol â’r mater hwnnw yn ei ymdriniaeth o ddysgu. Ychwanegodd aelodau eraill CYSAG hefyd eu cefnogaeth i gyflwyno credoau eraill i blant yn y cyfnodau cynnar. Cyfeiriodd Mr G. Craigen at natur statudol dysgu crefyddau ychwanegol, felly nad oedd yn fater i CYSAG mewn gwirionedd.

Ymholodd y Cynghorydd G C Evans ynglŷn â’r camau sy’n cael eu cymryd i dalu sylw i’r gwendidau a nodwyd yn Ysgol Bryn Collen. Cadarnhaodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol ei fod wedi ymweld â’r ysgol i drafod y materion a godwyd yn ystod yr arolwg ac y byddai’n ymweld â’r ysgol eto ddiwedd Medi er mwyn monitro cynnydd. Cyfeiriodd y Cadeirydd at system arolygu newydd fydd yn cael ei chyflwyno o Fis Medi 2010 ac at effaith yr arolwg o Addysg Grefyddol. Cadarnhaodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol na fydd Addysg Grefyddol yn cael ei archwilio fel pwnc ar wahân oni bai bod ysgolion yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol. Dim ond os na fydd yn cyfarfod â’r gofynion statudol y cyflwynir sylwadau ar Addoli ar y Cyd ac Addysg Grefyddol felly byddai absenoldeb sylwadau’n dangos canlyniad boddhaol. Er bod Estyn yn arolygu ysgolion bob chwe blynedd, bydd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol yn monitro Addysg Grefyddol yn Sir Ddinbych ar gyfer CYSAG bob tair blynedd.

Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i ddarllen yr adroddiadau llawn yr arolygiadau ar ysgolion sy’n rhoi gwahanol elfennau o’r archwiliad mewn cyd-destun. Tynnodd sylw at y ffaith fod dwy o’r ysgolion wedi perfformio’n eithriadol o dda a chytunwyd y dylai llythyrau gael eu hanfon allan yn y modd arferol yn

llongyfarch yr ysgolion ar eu nodweddion cadarnhaol a bod anogaeth a chefnogaeth yn cael eu cynnig i'r ysgolion hynny lle nodwyd diffygion.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad;*

*(b) anfon llythyr i'r ysgolion a archwiliwyd yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd a chynnig gwasanaethau'r Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw feysydd i'w datblygu neu faterion allweddol sydd angen sylw, a*

*(c) gofyn i'r Awdurdod Lleol i ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

**100 CYFLWYNIAD AR BROSIECT PONTIO CYFNOD ALLWEDDOL 2 / CYFNOD ALLWEDDOL 3**

Rhoddodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol gyflwyniad 'PowerPoint' i aelodau ar y Prosiect Pontio Cyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3 dan y teitl 'Cloddfa Archeolegol', adnodd ar gyfer athrawon Addysg Grefyddol y mae wedi ei ddatblygu. Dywedodd wrth aelodau y seiliwyd cefndir yr adnodd ar syniad a gododd o raglen deledu oedd yn dangos arteffactau'n cael eu cloddio. Eglurodd yr Uwch Gynghorydd fod yr adnodd ar wefan a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint a'i bod yn cael ei defnyddio i 'gloddio' am arteffactau gyda'r disgyblion yn holi ac yn archwilio'i darddiad er mwyn dysgu mwy am gredoau Cristnogaeth a sawl ffydd arall. Arweiniodd aelodau trwy'r prosiect gan egluro sut y cafodd ei ddefnyddio'n ymarferol gydag lle gallai disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ganfod wyth gwrthrych, dau bob un yn ymwneud â Christnogaeth, Hindŵaeth, Islam ac Iddewiaeth. Yna bydd y disgyblion yn cynhyrchu pamffled a fydd yn cael ei ailgyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 3 par gyfer cynhyrchu prosiect 'power point' gydag asesiad cyfoedion i ddilyn.

Dywedwyd wrth aelodau bod y prosiect yn cael ei beilotia ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd Dinbych a phump o'r ysgolion sy'n ei bwydo ac y gobeithir y byddai'r fersiwn Gymraeg hefyd ar gael erbyn diwedd y flwyddyn. Mynegodd y Cadeirydd ei siom fod ynghylch oedi mewn cyfieithu. Soniodd Mr G Craigen pa mor anodd yw cyfieithu defnyddiau a allai newid gan ddweud efallai y dylid derbyn y bydd peth oedi pan fydd adnoddau o'r fath yn cael eu cyflwyno i'w treialu. Teimlai'r Cyngor bod yr adnodd yn fodd ardderchog o weithio'n agos â phlant a'u cyflwyno i wahanol ffydd ac y byddai'n arf gwerthfawr i wrthweithio yn erbyn y gostyngiad ym mherfformiad disgyblion rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol y gallai'r adnodd gael ei ddefnyddio drosodd a thro ac y gellid ei ddefnyddio ar gyfer pynciau eraill. Sicrhaodd aelodau na fyddai unrhyw blentyn nad oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect yng Nghyfnod Allweddol 2 o dan anfantais gan y byddai grwpiau gwahanol o blant yn ystyried gwahanol arteffactau a bod yr agwedd yma wedi cael ei ystyried yn y peilot. Gofynnodd y Cadeirydd am adborth ar y peilot yng nghyfarfod nesaf CYSAG fis Hydref 2010.

Hefyd tynnodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol sylw'r aelodau at nifer o adnoddau roedd wedi eu defnyddio fel Pennaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol John Bright, Llandudno (fel y gofynnwyd amdano gan aelodau) gan fanylu'n benodol ar y defnyddiau canlynol –

- Jig-sos Rhyngweithiol
- 'Power point' Rhyngweithiol (Cwis Llawn)
- Gwefannau Diddorol
- Defnydd o Fideo

Pwysleisiodd bwysigrwydd defnyddiau o'r fath wrth ddenu disgyblion i gymryd rhan a dal eu dychymyg. Hysbyswyd aelodau hefyd bod dau ddiwrnod datblygu wedi cael eu trefnu ar y 22 a'r 29 Mehefin fel y gall athrawon gyfarfod er mwyn rhannu syniadau ac arfer da ar gyfer cyfnodau allweddol penodol. Roedd y dyddiau datblygu wedi cael eu hyrwyddo mewn ysgolion ac roedd yr arwyddion cyntaf yn dangos ymateb cadarnhaol gyda deg ar hugain o athrawon wedi dangos eu bwriad i fod yn bresennol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol am ei gyflwyniad diddorol ac addysgiadol gan ddweud fod aelodau wedi eu calonogi gan y mentrau sy'n cael eu cynnal er mwyn

rhannu arfer gorau a datblygu defnyddiau ac adnoddau ymhellach er mwyn denu disgyblion i gymryd rhan mewn Addysg Grefyddol.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn cyflwyniad yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol, a*

*(b) bod adborth ar y prosiect adnoddau sydd ar hyn o bryd yn cael ei beilotia yn Ysgol Uwchradd Dinbych yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf CYSAG ym Mis Hydref 2010.*

**101 CYMDEITHAS CYSAG CYMRU**

**5(a) Cofnodion Cymdeithas CYSAG Cymru – 18fed Mawrth 2010**

Cafodd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe ar 18 Mawrth 2010 (a rannwyd o'r blaen) eu cyflwyno er gwybodaeth i aelodau.

Cyflwynodd y Parchedig B H Jones adroddiad ar y cyfarfod roedd wedi ei fynychu a oedd yn brofiad buddiol a gwerth chweil. Tynnodd sylw'r aelodau'n benodol at y cyflwyniadau gan y Ditectif Uwch-arolygydd Pam Kelly, o Heddlu Dyfed Powys a fu'n trafod pwysigrwydd Addysg Grefyddol ar gyfer swyddi yn y sector gyhoeddus gan gyfeirio'n benodol at wasanaeth yr heddlu ac at gyflwyniad Norma Glass ar ran Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol ar ddysgu y tu allan i'r dosbarth: mannau addoli. Roedd y Cadeirydd yn siomedig nad oedd wedi gallu bod yn bresennol cyfarfod ym Mis Mawrth ond dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at fod yn y cyfarfod nesaf yn Wrecsam ar 24 Mehefin 2010.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru a gynhaliwyd ar y 18fed Mawrth 2010.*

**5(b) CYSAG a'r Arolwg o'r Gymuned Leol**

Cyfeiriodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol at arolwg o'r enw 'CYSAG a'r Gymuned Leol' (a rannwyd o'r blaen) gan Gymdeithas CYSAG Cymru. Mae'n gofyn i bob CYSAG yng Nghymru ei gwblhau ac mae'n holi ynghylch sefydliadau rhyng-ffydd lleol a mentrau rhyng-ffydd eraill. Bydd yr arolwg yn cyfrannu at adroddiadau Cymdeithas CYSAG Cymru ac yn dangos y berthynas rhwng pob CYSAG â'u cymunedau lleol a hefyd yn dangos sut y gall pob CYSAG gyfrannu yn eu hardaloedd at thema drawsbynciol Llywodraeth y Cynulliad o gydlynu cymunedol.

Er y gellid ateb rhai o'r cwestiynau'n hawdd trwy'r rôl weinyddol, roedd eraill yn gofyn am drafodaeth bellach gan CYSAG. Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd C M Evans ynglŷn â pha mor dderbyniol yw bod ambell ffydd yn cael ei chynrychioli ar CYSAG, ymhelaethodd Mr. G. Craigen ar y gofynion statudol bod Enwadau Crefyddol yn adlewyrchu amrywiaeth a chyfansoddiad gwahanol gymunedau ffydd eu hardal. Er y cysylltwyd â'r cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig ni chafwyd ymateb gan yr un o'r ddau. Cyfeiriodd Mr. Craigen hefyd at drafferthion llenwi lleoedd gwag eraill ar CYSAG er gwaetha'r ymdrechion gorau. Awgrymodd y Cynghorydd G A Jones y dylid cysylltu â'r tair ysgol Gatholig i geisio llenwi'r lle Catholig gwag.

Wrth ystyried cwestiynau'r arolwg talodd yr aelodau sylw'n benodol ar y canlynol –

Adran A - Cwestiynau 2 a 3 - Cafodd CYSAG drafferth cael cynrychiolwyr enwadau Cristnogol ac mae nifer o leoedd gwag heb eu er gwaethaf pob ymdrech. Ceisiwyd hefyd gal cynrychiolaeth addas o'r Cymunedau Mwslemaidd ac Iddewig hefyd ond yn ofer. Felly ni all CYSAG fod yn sicr bod ei aelodaeth yn adlewyrchu'r enwadau Cristnogol perthnasol na chrefyddau eraill a'u henwadau yn yr ardal er gwaethaf pob ymdrech.

Adran B – Cwestiynau 1 a 2 – Mae unigolion wedi eu cyfethol i CYSAG oherwydd eu profiad a'u cyfraniad gwerthfawr i gyfarfodydd.

Adran C – Cwestiwn 1 – Mae yna gysylltiad ag enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau yn yr ardal trwy aelodau unigol CYSAG.

Adran C – Cwestiwn 2 – Mae gan yr awdurdod lleol gysylltiadau â'r Canolfannau Iddewig ac Islamaidd a chafodd ysgolion y cysylltiadau hynny.

Adran C – Cwestiwn 3 – Mae prosiectau neu weithgareddau yn ymwneud ag eraill yn cynnwys Diwrnod o Brofi Cristnogaeth yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, Gwasanaeth Mileniwm ac Arddangosfa'r Ffordd Iddewig o Fyw.

Adran C - Cwestiwn 5 - Bydd CYSAG yn hyrwyddo cysylltiadau trwy gyfrwng yr Ŵyl Addysg Grefyddol sydd i'w chynnal a'r prosiect REsilience.

Adran D - Cwestiynau 1 a 2 - Bydd fforwm leol o grefyddau'r ardal yn cynnwys 'Cytun' y mae aelod o CYSAG, y Parchedig B H Jones yn rhan ohono.

Adran D – Cwestiynau 3 – 7 – O gofio absenoldeb grwpiau rhyng-ffydd yn yr ardal doedd gan CYSAG ddim ymrwymiad.

Yn dilyn y drafodaeth uchod, ac mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cadeirydd, dywedodd Tania Ap Siôn y byddai Cymdeithas CYSAG Cymru yn casglu'r ymatebion i'r holiaduron ac yn paratoi adroddiad swyddogol ar waith CYSAG yn eu cymunedau lleol erbyn Mis Medi 2010.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) gofyn i'r Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol gwblhau a dychwelyd yr arolwg 'CYSAG a'u cymunedau lleol' gan gymryd i ystyriaeth ymatebion aelodau fel y manylir uchod, a*

*(b) cyflwyno adroddiad Cymdeithas CYSAG Cymru, ar ôl casglu'r ymatebion i'r holiaduron, i gyfarfod CYSAG yn y dyfodol.*

**102 GŴYL ADDYSG GREFYDDOL**

Cyfeiriodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol at daflen ( a rannwyd o'r blaen) yn hysbysu aelodau o'r Ŵyl Addysg Grefyddol sydd i'w chynnal fis Mawrth 2011. Bydd yn fis ddathliad i hyrwyddo Addysg Grefyddol trwy ysgolion. Mae manylion am amcanion y mis Addysg Grefyddol yn y daflen gan gynnwys gan gynnwys dangos fod addysg grefyddol yn bleserus ac yn berthnasol i ddisgyblion o bob gallu a grwpiau oedran. Bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng Addysg Grefyddol a chymunedau ffydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cyflwynodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol nifer o fentrau ar gyfer y dathliad gan gynnwys cystadleuaeth ar gyfer y fideo/montage gorau gan bob cyfnod allweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd syniadau eraill yn cynnwys ymweliadau, dadleuon, cyflwyniadau, cylchlythyrau ac arddangosfeydd ac ati'n canolbwyntio ar ysgolion, adeiladau cyhoeddus, yr awdurdod lleol a chymunedau crefyddol. Hysbyswyd yr aelodau bod yr ŵyl yn gyfle i drafod syniadau ynghylch sut y gellid hyrwyddo addysg Grefyddol. Awgrymodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol hefyd y dylid ei lansio yn lleol yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, gwahodd y wasg yno a gofyn i ysgolion ddarparu arddangosfa o Addysg Grefyddol yn ogystal ag arddangosfa o waith mewn ysgolion. Roedd yr aelodau'n awyddus i ddefnyddio adeiladau eraill ar gyfer arddangosfeydd gan gynnwys llyfrgelloedd a'r Scala ym Mhrestatyn. Pwysleisiwyd y dylid darparu ar gyfer pob oedran yn ogystal â sicrhau'r gynulleidfa fwyaf posibl ar gyfer digwyddiadau. Argymhellwyd hefyd gysylltu â Deon y Gadeirlan cyn gynted ag y bo modd gan fod eu calendr yn brysur iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd dywedodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol nad oedd arian yn cael ei glustnodi'n benodol ar gyfer yr ŵyl. Awgrymodd y Cadeirydd sefydlu is-bwyllgor er mwyn trafod syniadau a symud y mater ymlaen a gofynnodd am fynegiant o ddiddordeb oddi wrth aelodau CYSAG yn y cyswllt hwn. Cytunwyd y byddai'r aelodau hynny sydd â diddordeb yn cytuno ar ddyddiad y cyfarfod cyntaf ar ddiwedd cyfarfod heddiw o CYSAG.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) derbyn a'i nodi'r daflen yn ymwneud â'r Ŵyl Addysg Grefyddol sydd i'w chynnal;*

(b) *bod Is-bwyllgor yn cynnwys y Cadeirydd, y Cynghorydd M M Jones, Mr. G Craigen, Ms. T Ap Sion a Mrs. S Harris yn cael ei sefydlu gyda'r Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol gyda'r bwriad o hyrwyddo Addysg Grefyddol yn ystod y dathliadau mis o hyd yn ystod mis Mawrth 2011 a chyflwyno adroddiad i'r CYSAG hwn ym fis Hydref 2011.*

**103 PROSIECT RESILIENCE**

Cyfeiriodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol at daflen (a rannwyd o'r blaen) ynghylch y Prosiect REsilience sy'n cael ei reoli gan Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr.

Cyflwynodd Mr. G. Craigen adroddiad ar gefndir a chyd-destun y prosiect (ef oedd y Mentor Arweiniol yng Nghymru) a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref gyda'r pwyslais ar adeiladu hyder a sgiliau athrawon wrth ddelio â materion dadleuol oedd yn benodol berthnasol i Addysg Grefyddol. Roedd cynllun peilot wedi ei gwblhau yn Lloegr ac ar hyn o bryd roedd y prosiect yn cael ei beilotia mewn pum ysgol yng Nghymru, yr agosaf ohonyn nhw yn Wrecsam ac Ysgol Maes Garmon, Y Fflint cyn ei gyflwyno i ysgolion eraill fis Medi 2010. Bydd yr ysgolion yn hunanwerthuso yn dilyn ymweliad gan y mentoriaid i gynnig hyfforddiant ac adnoddau addas. Dywedodd Mr. Craigen ei fod yn brosiect cyffrous iawn ac yn ffordd arall o atgoffa'r gymuned bod gan Addysg Grefyddol gyfraniad sylweddol i'w wneud i alluogi ysgolion i annog deialog agored mewn dosbarthiadau ac i gydnabod bod yna wahaniaethau. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch ariannu'r prosiect, dywedodd Mr Craigen bod y Swyddfa Gartref wedi clustnodi arian ar gyfer rhan gyntaf y prosiect hyd Fis Mehefin 2010. Er y bwriedir cynnal ail gyfnod, dyw hi ddim yn glir eto a fydd y prosiect yn parhau. Rhan sylweddol o'r prosiect oedd defnyddio'r Dogfennau Gateway fel adnodd gwerthfawr i ddarparu cysylltiadau ac arweiniad pellach i athrawon a bydd y rhain yn cael eu darparu'n ddwyieithog yng Nghymru. Roedd y Cynghorydd J Yorke yn falch iawn o glywed am y prosiect ac o'r farn y byddai'n ddefnyddiol iawn ac o gymorth i athrawon, yn seiliedig ar ei phrofiad o faterion o'r fath pan oedd yn gweithio mewn ysgol uwchradd yn Nwyrain Llundain yn dilyn 9/11.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r daflen yn ymwneud â'r prosiect REsilience a reolwyd gan Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr ynghyd â'r adroddiad llafar arno gan Mr. G. Craigen, Y Mentor Arweiniol yng Nghymru.*

**104 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y bydd cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. ar 11 Hydref 2010 yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Ffordd Churton, y Rhyl. Roedd hefyd yn siomedig nad oedd swyddog yn bresennol yng nghyfarfod heddiw o Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes y Cyngor a dywedodd y byddai'n gofyn i swyddog fod yn bresennol yng Nghyfarfod nesaf CYSAG.

**105 MATER BRYS – ETHOL AELODAU I WEITHGOR CYSAG CYMRU**

(Ystyriwyd bod yr eitem hon yn fater brys, gan fod rhybudd wedi ei roi gan y Cadeirydd ar ddechrau'r cyfarfod.)

Cyflwynodd yr Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol adroddiad llafar ar y tri enwebiad a dderbyniwyd ar gyfer y ddau le ar y Pwyllgor Gweithredol, sef y Cynghorydd Sirol Huw George, Sir Benfro, Mary Parry, Sir Gaerfyrddin a Dafydd Treharne, Bro Morgannwg a gofynnodd am farn yr aelodau ar yr ymgeiswyr hynny.

Ystyriodd yr aelodau gefndir a phrofiad y tri ymgeisydd ac ar ôl trafodaeth fer –

***PENDERFYNWYD** yn derbyn pleidlais CYSAG Sir Ddinbych, ethol Mary Parry, Sir Gaerfyrddin a Dafydd Treharne ar Bwyllgor Gweithredol CYSAG Cymru.*

Cyn cloi'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Gynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol, Clerc CYSAG a'r Cyfieithydd ar y Pryd am eu gwaith ac i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.

********